MWLDAN bendigedig

DATGANIAD I'R WASG

7 Rhagfyr 2018

I'w ryddhau ar unwaith

Catrin Finch & Seckou Keita yn cyhoeddi taith DU i gyd-fynd â rhyddhau eu halbwm newydd 'SOAR' ym mis Ebrill 2018

Mae'n bleser gan Catrin Finch y delynores Gymreig a Seckou Keita, y chwaraewr kora o Senegal, gyhoeddi rhyddhau eu hail albwm, y bu aros mawr amdano, sef SOAR ar 27ain o Ebrill 2018 ar label bendigedig. Yn dilyn hyn bydd taith DU ym mis Ebrill a Mai y flwyddyn nesaf, gyda dyddiadau pellach yn yr hydref i'w cyhoeddi'n fuan.

Mae'r albwm yn troi o gwmpas adenydd y gwalch, yr aderyn ysglyfaethus godidog a ddychwelwyd i Gymru'n ddiweddar yn dilyn absenoldeb o ganrifoedd, sy'n gwneud ei daith flynyddol o 3,000 milltir o arfordiroedd Gorllewin Affrica i aberoedd Cymru, gan hedfan fel cerddoriaeth a breuddwydion dros ffiniau o waith Dyn, ar siwrnai o ddycnwch cynhenid ac epig.

Gan dynnu'n ddwfn ar eu traddodiadau amrywiol eu hunain a'u trawsffurfio gyda synergedd hynod, mae Catrin a Seckou wedi adeiladu enw da heb ei ail am eu perfformiadau rhyfeddol dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn gyfareddol, yn fesmereiddiol, yn gywrain ac yn etheraidd, mae'r cydweithrediad aruthrol hwn, sy'n fawr ei glod gan y beirniaid, ac sydd wedi ennill gwobrau di-ri, rhwng dau berfformiwr penigamp yn darparu arddangosfa syfrdanol o gerddoriaeth o'r radd flaenaf a phrofiad byw gwefreiddiol.

Bydd y daith yn ymweld â Machynlleth, Bangor, Milton Keynes, Caerfaddon, Caerdydd, Aberteifi, Llundain, Truro, Birmingham, Sheffield, Abertawe, Derby a Swaledale, gyda'r gantores-gyfansoddwraig Gwyneth Glyn yn cefnogi ar ddyddiadau penodol.

Caiff y dyddiad ryddhau ei farcio gan berfformiad arbennig ar gyfer cynulleidfa o 45 person yn yr Arsyllfa yng Nghanolfan Gweilch Dyfi ger Machynlleth yng Nghanolbarth Cymru, sy'n edrych dros blatfform nythu'r gweilch. Caiff yr holl elw a godir ei roi i Ganolfan Gweilch Dyfi i gefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn. Mae'r tocynnau ar gyfer y digwyddiad unigryw hwn yn £50 y pen gan gynnwys lluniaeth a chopi o'r albwm newydd wedi ei lofnodi.

Cyfeiriwch at wefannau canolfannau unigol am docynnau a dyddiadau gwerthu, neu ewch at catrinfinchandseckoukeita.com am fanylion. Caiff y daith hon ei chynhyrchu gan Theatr Mwldan mwldan.co.uk, a chaiff SOAR ei ryddhau ar bendigedig bendigedig.org

DIWEDD/

Nodiadau i olygyddion:

Cysylltwch â Tamsin Davies am fanylion pellach: Tamsin@mwldan.co.uk / 01239 623 925.

bendigedig

Mae yn bartneriaeth label rhwng ARC Music Productions International Ltd a Theatr Mwldan – ewch at www.bendigedig.org am fanylion pellach.

Cynhyrchir y daith gan Theatr Mwldan, Aberteifi, www.mwldan.co.uk

Mae'r perfformiad ar 27ain o Ebrill yn gyngerdd i godi arian tuag at Brosiect Gweilch Dyfi, Machynlleth, a reolir gan Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn. Cewch fwy o wybodaeth am waith yr ymddiriedolaeth ar y gwefan www.dyfiospreyproject.com

DYDDIADAU'R DAITH EBRILL / MAI 2018

Ebrill 26	**Y Tabernacl, Machynlleth, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn** tocynnau drwy mwldan.co.uk
Ebrill 27	**Yr Arsyllfa, Canolfan Gweilch Dyfi, Machynlleth** Perfformiad codi arian – tocynnau drwy mwldan.co.uk
Ebrill 29	**Hall For Cornwall, Truro** hallforcornwall.co.uk
Mai 2	**Theatr Mwldan, Aberteifi, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn** mwldan.co.uk
Mai 3	**Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn** stdavidshallcardiff.co.uk
Mai 4	**The Stables, Milton Keynes** stables.org
Mai 12	**Union Chapel, Llundain, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn** tocynnau ar werth ddydd Gwener 8 Rhagfyr o 10yb serious.org.uk
Mai 15	**Crucible Studio Theatre, Sheffield**

musicintheround.co.uk

Mai 17 **Pontio, Bangor, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn**
pontio.co.uk

Mai 18 **Canolfan y Celfyddydau Taliesin Arts Centre, Abertawe, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn**
taliesinartscentre.co.uk

Mai 22 **G yl Caerfaddon, Caerfaddon**
Tocynnau ar werth o 13 Rhagfyr drwy Bathfestivals.org.uk

Mai 25 **The Guildhall, Derby, gyda chefnogaeth gan Gwyneth Glyn**
derbylive.co.uk

Mai 28 **Swaledale, Grinton**
Tocynnau ar werth 5 Mawrth i danysgrifwyr cynllun 'Cyfeillion', ac ar werth i'r cyhoedd o 26 Mawrth drwy www.swalefest.org

Dyfyniadau pellach:

"*oh my God, incredible… you're witnessing a state of rapture, it's entrancing*" **Toby Jones, actor**

"*Absolutely hypnotic*" **Guy Garvey, BBC 6 Music**

"*intricate, ethereal and entrancing, an elaborate pas-de-deux... remarkable*" **Neil Spencer, Cylchgrawn UNCUT *******

"This, I suspect, will be remembered as one of the classic concerts of the year"
Robin Denselow, The Guardian *****

" a sublime duo of two artists who are masters of their instruments...musicality and architecture at work" **Simon Broughton, London Evening Standard *******

"an intriguing collaboration that really works… the interaction is remarkable…an elegant, gently exquisite set". **Robin Denselow, The Guardian ******

"Blissful" **Financial Times *******

"gorgeous, eloquent, elegant music" **Thomas Brooman CBE**

Dolenni YouTube:

https://www.youtube.com/watch?v=aawwpS7-s0I

(yn perfformio 'Bamba' yn eu sioeau WOMEX yng Nghaerdydd 2013)

https://www.youtube.com/watch?v=hcjmD4bqm_4

(yn perfformio 'Ceffylau' yng Ng yl Forde, Norwy, 2015)

https://www.youtube.com/watch?v=PtRfMOmG-tM

('Les Bras de Mer' – enwebwyd ar gyfer Trac Traddodiadol Gorau, Gwobrau Gwerin Radio 2 2014)

https://www.youtube.com/watch?v=vlDgG3AKrMc

('Bamba')

Gwybodaeth a chlipiau pellach yma: http://catrinfinchandseckoukeita.com/